BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GORCHYMYN YR A470 (CAERSŴS, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 200-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith hanfodol i gynnal a chadw'r groesfan reilffordd ar Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd" ger Caersŵs yn Sir Powys .

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol amdano, yn weithredol am ddau benwythnos yn olynol ac yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 10 Hydref 2009 ac y bydd yn parhau mewn grym tan 06:00 o'r gloch ar 19 Hydref 2009, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig, a fydd yn para am 18 mis ar y mwyaf, fydd cau dros dro y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain o'r man ymadael/ymuno â chyffordd gylchfan yr A470 a'r B4569 i'r dwyrain o Lanidloes i'w chyffordd â'r A489, a elwir Cyffordd Moat Lane, i'r de-ddwyrain o Gaersŵs.

Rhagwelir mai 20 metr o bobtu i'r groesfan reilffordd ger Caersŵ s fydd hyd gwirioneddol y darn o'r gefnffordd lle gwaherddir cerbydau oherwydd y gwaith cynnal a chadw. Cedwir mynediad felly i gerbydau penodol hyd at y lleoliad hwn a chodir arwyddion priodol amdano. Er hynny, bydd y llwybrau amgen ar gyfer cerbydau gwaharddedig fel a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

YR ATODLEN

Llwybrau amgen i gerbydau gwaharddedig.

Cyfarwyddir cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin (traffig trwodd a cherbydau nwyddau trwm) o gyffordd Ffordd Dolfor yr A483/A489 yn y Drenewydd i ddilyn yr A483 tua'r de i ymuno â'r A44 tua'r gorllewin wrth Gylchfan y Groes. Yna dylent fynd ar ffordd sirol yr A44 tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A470/B4518 yn Rhaeadr Gwy a dilyn yr A470 tua'r gogledd i'w chyffordd â'r A44 yn Llangurig. Mae'r llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain i'r gwrthwyneb. Mae arwyddion yn y Drenewydd am lwybr dargyfeiriol i lwythau uchel.

Cyfarwyddir cerbydau sy'n teithio tua'r de (traffig trwodd a cherbydau nwyddau trwm) o gyffordd yr A470/A489 i'r de o Gaersŵs i ddilyn yr A489 i mewn i'r Drenewydd ac yna i fynd ar yr A483 tua'r de i ymuno â'r A44 tua'r gorllewin wrth Gylchfan y Groes. Yna dylent fynd ar yr A44 tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â'r A470/B4518 yn Rhaeadr Gwy ac yna dilyn yr A470 tua'r gogledd i'w chyffordd â'r A44 yn Llangurig. Mae'r llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd i'r gwrthwyneb. Mae arwyddion yn y Drenewydd am lwybr dargyfeiriol i lwythau uchel.

Cyfarwyddir traffig lleol sy'n teithio tua'r de i fynd ar hyd y B4569 ym mhentref Caersŵs drwy Drefeglwys i Lanidloes.

Cyfarwyddir traffig lleol sy'n teithio tua'r gogledd i ymuno â'r B4569 wrth y gylchfan ar yr A470 y tu allan i Lanidloes a mynd drwy Drefeglwys i'r A470 yng Nghaersŵs.

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A470 TRUNK ROAD (CAERSWS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 200-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, in not less than 7 days from the date of this Notice.

The proposed Order is necessary for essential maintenance of the level crossing on the Newtown - Aberystwyth Trunk Road (A470) (hereinafter referred to as "the trunk road") near Caersws in the County of Powys.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate for two consecutive weekends and will come into force at 00:01 hours on 10 October 2009 and will remain in force until 06:00 hours on 19 October 2009 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order, which will have a maximum duration of 18 months, will be to temporarily close that length of the A470 trunk road that extends in a north easterly direction from the exit/entry of the roundabout junction of the A470 and the B4569 to the east of Llanidloes to its junction with the A489, known as Moat Lane Junction, to the south east of Caersws.

The actual length of the trunk road where vehicles will be prohibited due to the maintenance works is envisaged to be 20 metres either side of the level crossing near Caersws. Access for certain vehicles up to this location will therefore be maintained and signed accordingly. However, the alternative routes for prohibited vehicles will be as specified in the Schedule to this Notice.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

SCHEDULE

Alternative routes for prohibited vehicles.

Westbound vehicles (through traffic and HGVs) will be directed from the A483/A489 Dolfor Road junction at Newtown to follow the A483 southbound to join the A44 westbound at Crossgates Roundabout. They should then take the A44 county road westbound to its junction with the A470/B4518 at Rhayader and follow the A470 northwards to its junction with the A44 at Llangurig. The alternative route for eastbound vehicles is vice versa. A high load diversion route is signed at Newtown.

Southbound vehicles (through traffic and HGVs) will be directed from the A470/A489 junction south of Caersws to follow the A489 into Newtown and then to take the A483 southbound to join the A44 westbound at Crossgates Roundabout. They should then take the A44 westbound to its junction with the A470/B4518 at Rhayader and then follow the A470 northwards to its junction with the A44 at Llangurig. The alternative route for northbound traffic is vice versa. A high load diversion route is signed in Newtown.

Local southbound traffic will be directed along the B4569 at Caersws village via Trefeglwys to Llanidloes.

Local northbound traffic will be directed onto the B4569 at the roundabout on the A470 outside Llanidloes via Trefeglwys to the A470 at Caersws.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.